TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

EAL Diploma mewn Technoleg Peirianneg Lefel 2

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn cynnig dealltwriaeth ragarweiniol o Beirianneg Drydanol a Mecanyddol. Bydd yn cynnig sylfaen gadarn yn yr agweddau allweddol ar beirianneg fodern, a dyma un o'r llwybrau a argymhellir ar gyfer y rhai sy'n awyddus i gael gyrfa yn y maes peirianneg – maes creadigol ac uchel ei gyflog.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych eisiau cael cyfuniad o astudiaeth ymarferol a damcaniaethol

... Ydych eisiau symud ymlaen at ddiploma estynedig

... Hoffech ddilyn prentisiaeth

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs yn gyfuniad o elfennau yn y labordy ac elfennau damcaniaethol. Byddwch yn dysgu

trwy gwblhau prosiectau ac aseiniadau a fydd yn seiliedig ar sefyllfaoedd gweithle realistig. Byddwch yn astudio unedau a fydd yn cynnwys:

Gweithio mewn Amgylchedd Peirianneg
Mathemateg Peirianneg ac Egwyddorion Gwyddoniaeth
Technegau Gwella Busnes
Egwyddorion Turnio a Llifanu
Egwyddorion Trydanol a Thrydan
Ymarfer Cynnal a Chadw Peirianegol
Cynllunio a Chynnal Prosiect Peirianneg
Gweithredu Gweithle Effeithlon
Cyflwyniad i Gyfathrebu yn ymwneud â Pheirianneg
Dyfeisiau Electronig a Chymwysiadau Cyfathrebu

Byddwch yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol, fel hunanreoli, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth busnes, ymwybyddiaeth cwsmeriaid, datrys problemau, cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd sylfaenol, ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch yn cael eich asesu trwy gyfrwng arholiadau, gwaith cwrs, aseiniadau, gwaith portffolio, ac asesiadau labordy neu asesiadau ymarferol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill:

Diploma Lefel 2 mewn Peirianneg
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ddilyn y cwrs hwn, byddwch angen pedwar cymhwyster TGAU fan leiaf, Gradd D neu uwch, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg Gradd C, neu Ddiploma Lefel 1 priodol mewn Peirianneg a TGAU Mathemateg Gradd C.

Bydd angen ichi fod yn rhifog ac yn greadigol, ynghyd â meddu ar ddiddordeb ysol mewn peirianneg. Hefyd, disgwyliwn ichi feddu ar hunangymhelliant, ynghyd â bod yn weithgar, yn brydlon ac yn llawn ymrwymiad.

Er mwyn ichi allu camu yn eich blaen at Lefel 3, bydd angen ichi sefyll TGAU Haen Uwch ochr

yn ochr â'r cwrs hwn er mwyn codi eich gradd i B neu uwch.

Beth sy'n digwydd nesaf?

BTEC Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Peirianneg Drydanol neu Peirianneg Mecanyddol
Prentisiaeth addas
Gwaith fel Technegydd Trydanol neu Electronig

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen ichi ddarparu eich defnyddiau ysgrifennu eich hun e.e. ffolderi, dalennau rhannu, pennau ysgrifennu, penseli, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.